

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 155

Rhif 17

Ebrill 28, 2022

50c.

CARIO CROES I BEN Y BRYN



Daeth torf o tua 70 o bobl ynghyd ar bnawn Gwener y Groglith mewn pererindod i gopa Bryn Myrddin ar gyrion Caerfyrddin. Cariwyd croes i fyny'r llethrau serth i safle'r hen fryngaer gan rhai o blant a ffrindiau gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin, gyda'r oedolion yn dilyn. Ar gopa'r bryn â'i olygfeydd eang o Ddyffryn Tywi, fe gynhaliwyd oedfa yn yr awyr agored. Bu'n arferiad i gynnal yr oedfa yno ers rhai blynyddoedd, ond cafwyd dwy flynedd o doriad oherwydd Covid. Peth braf iawn felly oedd gweld y nifer fwyaf erioed yn cymryd rhan yn y bererindod eleni. Mwynhawyd paned a chacen yn fferm Allt Fyrddin ar ddiwedd y daith. Diolch am bob cefnogaeth i'r achlysur blynyddol arbennig a bendithiol hwn.

CYNGOR YR UNDEB

Aeth dwy flynedd heibio ers rhoi'r gorau i gyfarfod yng Ngregynog oherwydd Covid-19. Prin i neb feddwl bryd hynny mai sefyllfa debyg, er nad cyn ddwysed, fyddai'n ein hwynebu ni eleni eto, ac nid heb rywfaint o siom y cytunwyd mai doethach fyddai oedi rhag galw pobl ynghyd i gyfarfod wyneb yn wyneb, a chynnal Cyngor rhithiol unwaith eto. Dyna wnaed ar 15 M awrth.

Gyda thrwch yr aelodau'n meddu ar sgiliau technolegol digonol, a rhai'n gryn feistri ar y cyfryngau cyfathrebu cyfoes, braf nodi inni gael cyfarfodydd buddiol a bendithiol iawn o dan gadeiryddiaeth Dafydd Roberts, Trefor (*llun*) a chafwyd dwy egwyl o ddefosiwn cyfoethog ganddo i agor y sesiynau. Bu'n gyfle arbennig, wrth agor tymor arall o weithgaredd i'r adrannau gyda'u swyddogion newydd,



ymgyfarwyddo â'u gwaith a dod i weld pa faterion fydd yn gofyn am sylw a thrafodaeth bellach. Roedd niferoedd y cynrychiolwyr ynghyd â natur y trafodaethau yn galonogol iawn.

ADRAN GENHADAETH A'R EGLWYS FYD-EANG

Fe wnaeth y cadeirydd, y Parchg Jill-Hailey Harries, arwain sesiwn frwdfrydig a diddorol.

Dathlu 150 Nodwyd gyda llawenydd bod Dr Geraint Tudur yn paratoi darlith i'w thraddodi yn y gynhadledd flynyddol.

CWM – Rhaglenni Cenhadol:

MSP3: Rhaglen Ddatblygu/Y Ffordd.

Gyda chynllun *Y Ffordd* yn dod i'w derfyn diolchodd y cadeirydd am yr adnodd gwerthfawr hwn gan annog mwy o ddefnydd eto ohono.

MSP4: Cenhadaeth Ddigidol. Gydag anogaeth CWM, ailymwelwyd â'r rhaglen a llwyddodd y staff i'w haddasu at



bwrpasau heddiw. Yn ogystal â hyrwyddo rhaglenni gwaith y Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd, a'r grŵp Eglwysy Dementia-gyfeillgar, gobeithir:

- sefydlu podlediad yr Undeb, sef cyfres o gyfweiliadau anffurfiol gydag unigolion,
- sefydlu prosiect cerddoriaeth ddigidol
- a threfnu sesiynau hyfforddi digidol.

Mae CWM wedi cymeradwyo'r datblygiadau hyn ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn at eu gweld yn dod yn weithredol.

Cynllun Hebrwng Academiaidd Mae trafodaeth ar y gweill i geisio nawdd i un o'n plith.

Cynhadledd Rhanbarth Ewrop Mae hon i'w chynnal ym mis Mehefin a bydd gennym bedwar cynrychiolydd yn ei mynychu.

Eglwys Unedig Pen-rhys, Llanfair yn y Rhondda. Nodwyd bod trafodaeth answyddogol yn cael ei chynnal gan arweinwyr yr wyth enwad/eglwys sy'n gysylltiedig â Phen-rhys i geisio canfod beth yw anghenion Llanfair a'r gymuned,

parhad ar dudalen 2

CYNGOR YR UNDEB – *parhad*

a sut orau i ymateb i hynny. Gofynnwyd i John Cullwick, pregethwr lleol gyda'r Methodistiaid, i eistedd gyda chyfeillion Pen-rhys drwy'r broses hon.

Cynllunio Cenhadaeth: Pam, Beth, Pryd, Pwy, Sut? Rhannwyd meddyliau a syniadau gwerthfawr ynghyd â straeon o weithgaredd cenhadol yn yr eglwysi. Cytunwyd nad oedd dim yn fwy o anogaeth ac ysbrydoliaeth na chlywed straeon pobl eraill a bod rhannu'n storïau mor bwysig. Y mae cenhadaeth yn fater o roi a derbyn. Soniwyd droeon am y cyfle a gafwyd i rannu'r neges Gristnogol gyda'r cynnydd yn y defnydd o'r cyfryngau torfol ac am rym ein tystiolaeth gyhoeddus yn wyneb digwyddiadau fel y rhyfel yn Wcráin.

Nid un peth yw cenhadaeth ac atgoffwyd ni o bum pwynt cenhadaeth:

- cyhoeddi'r newyddion da
- dysgu a meithrin disgyblion
- ymateb i angen pobl a'u caru
- herio anghyfiawnder a gweithio o blaid heddwch
- gwarchod y greadigaeth.

Sylweddolwyd mai dim ond cyffwrdd â'r testun a wnaethom, a bod angen parhau â'r drafodaeth gan hoelio sylw'n benodol ar un neu ddau beth, ac i feddwl am saerïo rhywbeth concrit allai fod yn arf i gynorthwyo'r eglwysi yn eu cenhadaeth.

ADRAN DINASYDDIAETH CRISTNOGOL

Dyma bigion o gyfarfod yr Adran, a gyfarfu'n rhithiol o dan Gadeiryddiaeth Emlyn Davies, Pentyrch (a'r Tabernacl, Efail Isaf).

Tynnodd Gethin Rhys, CYTÛN, sylw at Fwletin Polisi diweddaraf CYTÛN (Chwefror / Mawrth 2022), ac yn benodol yr hyn a gynhwyswyd dan y pennawd 'Deddfwriaeth Ddadleuol yn San Steffan', sef:

- Bil Cenedligrwydd a Ffiniau
- Bil yr Heddlu, Troseddu, Deddfrydu a Llysoedd
- Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Ddeddf Hawliau Dynol 1998

Nodwyd bod llofnod cynrychiolydd Cytûn wedi ei gynnwys ar lythyrau sydd wedi eu hanfon ynglŷn â'r angen i ddiwygio'r ddau Fil cyntaf, ond gan nad oedd unrhyw gais i ymateb i'r trydydd o fewn y cyfnod ymgynghori (8 Mawrth) wedi ei wneud, nid oedd cyfansoddiad Cytûn yn caniatáu iddynt weithredu ar sail mynegi "pryderon" yn unig. Nodwyd

hefyd bod cais wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru i gydnabod Cymru yn "Genedl Noddfa" i'r ffoaduriaid o Wcráin.

Eglwysi Dementia-gyfeillgar

Crynhodd y Cadeirydd y diweddaraf ynglŷn â'r cynllun i greu eglwysi Dementia-gyfeillgar ar draws Cymru, gan nodi y byddai lansiad swyddogol yn ystod mis Mai 2022. Byddai'r wybodaeth (yn Gymraeg yn unig), ar ffurf ffeil, yn cael ei gyflwyno i'r holl gapeli yn fuan, a nododd bod enwebiadau o bob cyfundeb wedi eu cyflwyno, a fyddai yn ei dro yn hwyluso perchnogaeth a gweithredu'r awgrymiadau o'i mewn. Mae'r awgrymiadau hynny'n cynnwys: modd o humanasesu'r adeilad a'i adnoddau; esiamplau o oedfaon y gellid eu defnyddio; y math o gerddoriaeth a allai fod o gymorth; a chyfeiriadau cyfleus a defnyddiol at gyrrff sy'n weithredol yn y maes eisoes. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y byddai swm o £8000 ar gael o gronfa'r Undeb ar gyfer y cynllun.



Economi Bywyd a Newid Hinsawdd

Cafwyd diweddariad gan Dr Fiona Gannon ar waith y Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd a chadarnhad mai ar yr elfen leol y byddai'r pwyslais, gan ddefnyddio cyfrwng fidio i rannu'r neges.

Byddid yn amcanu i lansio'r cyfan, fydd ar gael yn ddwyieithog, yn y Cyfarfod Blynyddol yng Nghaerfyrddin, a chadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y byddai swm o £8000 ar gael o gronfa'r Undeb ar gyfer y gwaith yma yn ogystal.

Penawdau eraill

- Nodwyd ei bod o hyd yn obeithiol y gellid dod a phenderfyniad gerbron yr Undeb yn y Cyfarfod Blynyddol ynglŷn â Gwaddol Caethwasiaeth.
- Hefyd nodwyd bod trafodaethau wedi cychwyn gyda Chymorth Cristnogol, gyda'r bwriad o lansio Apêl arbennig yr Undeb / Cymorth Cristnogol 2023/24 yng Nghyfarfod Blynyddol yr Undeb yn 2023.
- Cefnogwyd cynnig, mewn egwyddor,

oddi wrth Hywel Wyn Richards, yn gofyn am gefnogaeth i awdurdodi'r Undeb i wneud cyfraniad (swm o £4000 / 5000) o'r gronfa ganolog i Apêl Wcráin DEC. Byddai'n ofynnol i swyddogion yr Undeb wirio'r hyn oedd yn bosibl yn gyfreithiol o fewn gofynion y Comisiwn Elusennol cyn gwneud unrhyw daliad.

- Cefnogwyd cynnig oddi wrth Alun Lenny i anfon llythyr, yn enw'r Llywydd, i Ganghellor y Trysorlys, Llywodraeth San Steffan, yn mynegi pryder difrifol am yr effaith ar deuluoedd a chymunedau yn sgil y codiadau aruthrol ym mhris tanwydd ac ynni (gweler tudalen flaen *Y Tyst*, Mawrth 24 2022).

Rhodri-Gwyn Jones
Ysgrifennydd

ADRAN TYSTIOLAETH

Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, fe wnaeth y cadeirydd, y Parchg Euron Hughes, ddiolch i'r cadeirydd a'r ysgrifennydd blaenorol sef Mr Ifan Alun Puw a'r Parchg Carwyn Siddall.

Y Tyst

Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r *Tyst* a'r ymdrech arwrol a wneir gan dim golygyddol bach ond hynod o weithgar i ddarparu papur wythnosol. Gofynnodd aelod o'r tîm golygyddol am gefnogaeth unigolion, eglwysi a chyfundebau i anfon straeon ac erthyglau i'r *Tyst*. Mae'n bwysig iawn rhannu ein straeon a'n profiadau efo'n gilydd; drwy hynny, byddwn yn nerthu ein gilydd.

Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gwefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi cael ei diweddarau a chafwyd cyflwyniad i'w chynnwys gan Rhodri Darcy. Mae nifer o adnoddau ar y wefan at ddefnydd pawb, ac mae llawer o waith wedi mynd i'r uwchraddio hwn. Wrth drafod safle cyfrwng cymdeithasol Facebook soniwyd unwaith eto am ddefnydd effeithiol sydd yn ehangu sut mae'r enwad yn gallu cyrraedd pobl nad ydynt o reidrwydd yn aelodau mewn eglwysi. Yn ystod y cyfnodau clo roedd darpariaeth a chyswllt ar y cyfrwng hwn yn bwysig iawn i fedru parhau i gyflwyno tystiolaeth o'r Efengyl. Nododd y tîm o Dŷ John Penri eu bod yn edrych ar weithredu ymagwedd mwy cydlynus ar draws holl gyfryngau cyfathrebu'r Undeb.

Rhannodd Y Parchg Beti-Wyn James hanes y Priorddy, Caerfyrddin o gychwyn gwneud podlediadau yn dilyn gweithdy gyda Menter Gorllewin Sir Gâr i ddsygu'r ieuencid sut i wneud podlediadau; bellach mae gan Gapel y Priorddy

parhad ar dudalen 6

Yr Adran Gydenwadol

Ymateb i heriau cymhleth ein byd



Wythnos Cymorth Cristnogol 2022: 15–21 Mai

Mae heriau ein byd yn aml a dyrys. O ryfel yn Wcráin, newyn yn Affganistan ac effeithiau'r argyfwng hinsawdd drwy'r byd i gyd, byddai'n hawdd troi'n fewnblyg a digalonni. Ond yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (15–21 Mai) mae cyfle i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn. Trwy roi, gweithredu a gweddio, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn.

Mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi mynd â sylw'r byd dros y misoedd diwethaf. Un canlyniad i'r ymladd yno yw bod prisiau grawn wedi codi, gan fod Wcráin yn wlad sy'n cynhyrchu cymaint o rawn ar gyfer y byd.

Wrth gwrs, bydd y gwledydd cyfoethog yn gallu ymdopi â'r prisiau uwch, ond i'r gwledydd tlawd mae'n fater gwahanol. Mae gwlad fel Zimbabwe, er enghraifft, eisoes yn ei chael hi'n anodd cynhyrchu ei bwyd ei hun oherwydd y newid yn yr hinsawdd, a bydd prisiau uwch yn ychwanegu at yr argyfwng.

Zimbabwe gaiff sylw Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio yno er mwyn eu helpu i addasu eu dulliau amaethyddol. Mae Janet Zirugo (yn y llun) yn fam-gu 70 oed ac wedi gweld ei bywyd yn cael ei drawsnewid gan y technegau newydd.

Un peth yn benodol sydd wedi ei helpu yw'r hadau newydd y mae'n eu defnyddio erbyn hyn. Mae'r hadau hyn yn wydn



iawn mewn cyfnodau sych a thrwy eu defnyddio gall Janet sicrhau cynydu da ar gyfer ei theulu. Mae wedi gallu troi ei thir sych a llychlyd yn ardd lawn llysiau lliwgar.

Dyma'r hyn y mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gallu ei gyflawni. Mae'r arian yr ydych yn ei godi yn hollbwysig yng ngwaith y mudiad o amgylch y byd.

Bydd pob math o weithgareddau'n digwydd ledled Cymru o amgylch cyfnod yr Wythnos, yn cynnwys nifer o unigolion a grwpiau sydd am gyflawni her y 300,000 o gamau trwy fis Mai. Mae'r her hon wedi cydio yn nychymyg llawer ers iddi gael ei threialu ddwy flynedd yn ôl.

Un person sydd am gyflawni'r her hon ydi'r Parchedig Andrew Sully o Landudno. Mae wedi gosod nod sylweddol iawn iddo'i hun, sef cerdded o'r Waun i Gaernarfon gan gysylltu pob un o gestyll y gogledd ar y ffordd, 22 ohonynt. Bydd wedi cerdded dros 300,000 o gamau erbyn diwedd mis Mai heb os!

Os yw ymdrech Andrew yn eich ysbrydoli, beth am drefnu eich taith eich hun yn lleol? Cewch fwy o wybodaeth ar [ein gwefan](#): neu drwy ffonio ein swyddfa yng Nghaerdydd: 029 2084 4646 neu drwy e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org

Mae problemau ein byd yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiol, ond trwy sefyll mewn undod gyda'n brodyr a'n chwiorydd, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i fywyd llawer ohonynt.

Teithiau Elfyn Thomas Tours

01407 731080

Drama'r Dioddefaint • Oberammergau 2022

Ymunwch ag un o'n teithiau
arbennig o ogledd Cymru

Cynwys: Trefniant swyddogol
2 noson yn Oberammergau
Seddi Categori 1 i weld y
perfformiad

9 noson: swper, gwely a brecwast

16–25 Awst: 10 Diwrnod – £1749
Soll a'r Tyrol Rhaeadr Krimml
Llyn Achensee

15–24 Medi: 10 Diwrnod – £1749
Innsbruck Alpau Awstria
Llyn Constance a Lindau Feldkirch

Peidiwch â cholli cyfle,
dyddiad nesa 2030

Ychydig o seddi ar ôl
ar y ddau ddyddiad

Codwch y ffôn am fwy o
fanylion, neu ewch i'n gwefan:

www.elfynthomas.com

Hawlia dy dir

Darllen: Josua 18:1-9 ac Actau 2:24-36

Rydymyn ddigon cyfarwydd â'r dywediad 'Dal dy dir', ac rydym yn gefnogol iawn i'r syniad tu cefn i'r geiriau: nid yw Cymru ar werth. Rydym ni am amddiffyn ein cymunedau cefn gwlad a'n Cymreictod.

Ond mae rhywbeth ychydig yn wahanol gennyf i chi heddiw: nid dal dy dir, ond hawlia dy dir. Roedd plant Israel wedi crwydro'r anialwch am ddeugain mlynedd, ond nawr maent yn paratoi i ddod allan o'r anialwch a meddiannu'r wlad sydd wedi ei haddo iddynt. Ond mae rhai ohonynt, wrth ddod allan o'r anialwch a chyrraedd tir Moab i'r dwyrain o'r loddonon, yn gofyn i Moses am setlo yno heb fynd ymhellach. Dydyn nhw ddim wedi cyrraedd gwlad yr addewid. 'Ond na,' dywedant. 'Ry'm ni'n iawn fan hyn', ac maent yn benderfynol o aros yno.

Ac felly y bu. Setlodd llwyth Reuben, llwyth Gad a hanner llwyth Manasse yn y dwyrain. Nid aethant mewn i wlad yr addewid. Plant Abraham oeddynt o hyd, o'i dylwyth ef. Roeddynt o'r ffydd iawn, o'r gred iawn, ond heb fynd mewn i wlad yr addewid, o'u dewis nhw eu hunain.

Cymharwch sut roedd y llwythau hyn yn ymateb i wlad yr addewid ag ymateb Caleb. Erbyn hyn mae'n 85 oed. Fe oedd un o'r ysbïwyr gwreiddiol oedd wedi mynd i mewn i'r wlad ar ôl croesi'r Môr Coch ddeugain mlynedd ynghynt. Fe welodd y wlad bryd hynny ac roedd yn gwybod yn iawn ei bod yn lle prydfarth a ffrwythlon. Roedd e wedi bod yn breuddwydio am fynd i mewn i Ganaan ers hynny. Nawr, y peth cyntaf mae'n ei wneud yw gofyn i Josua am Hebron a'r cyffiniau. Mae'n hawlio'i etifeddiaeth yn syth ac yn gosod esiampl i'r henoed hyd heddiw.

Cymharwch hefyd sut yr oedd merched Seloffehad wedi ymateb i feddiannu eu hetifeddiaeth. Doedd dim meibion gan Seloffehad, a'r adeg honno doedd dim modd i ferched etifeddu unrhyw beth. Felly, yn ôl eu diwylliant, mi fyddai enw ac etifeddiaeth Seloffehad yn marw allan. Mae'r merched yn mynd at Moses ac yn gofyn iddo wneud rhywbeth

am hyn, ac mae Moses yn mynd at yr Arglwydd i ofyn am arweiniad. Trodd yr Arglwydd y diwylliant ar ei ben. Mae merched Seloffehad yn cael etifeddu siâr 'meibion' y gŵr. Maent yn hawlio'u hetifeddiaeth.

Mae'r henoed yn meddiannu eu hetifeddiaeth. Mae'r merched yn meddiannu eu hetifeddiaeth, ond mae yna saith llwyth ar ôl o blant Israel sydd ddim wedi meddiannu modfedd eto. Maent yn byw fel teithwyr yn hytrach na thrigolion, fel tenantiaid yn hytrach na pherchnogion. Mae Josua yn eu herio, 'Am ba hyd yr ydych am esgeuluso mynd i feddiannu'r tir a roddodd Arglwydd Dduw eich tadau i chiwi?' Meddiannu'r tir yw eu cyfrifoldeb. Dyna'r cwbl sydd ar ol iddynt i'w wneud, ond maent yn oedi'n ddiangen.

Gydag atgyfodiad Iesu, mae yna wlad yr addewid ysbrydol o'n blaen. Rydym i fod i feddiannu a mwynhau rhinweddau a bendithion yr atgyfodiad, bendithion sydd ar gael i ni heddiw. Wrth ddarllen Actau'r Apostolion dyna'r pwyslais rydym yn ei weld ar bob tudalen, ym mhregethau'r apostolion ac yn eu bywydau. Mae'r llyfr ei hunan yn dechrau gyda'r Iesu wedi'i atgyfodi ac yn ymddangos i'r disgyblion. Yn syth ar ôl yr esgyniad, maent yn apwyntio apostol arall i fod yn dyst o'r atgyfodiad. Ar ddydd y Pentecost, o dan arweiniad yr Ysbryd Glân, y thema yw'r atgyfodiad. Oherwydd hyn roedd yr apostolion yn disgwyl gweld Crist ar waith. Roeddynt yn gwybod bod Iesu'n fyw, a gyda'r wybodaeth hon roeddynt yn disgwyl i rywbeth ddigwydd. Iacháu pobl? Mae Iesu'n fyw. Ateb gweddïau? Mae Iesu'n fyw. Arllwys yr Ysbryd arnom? Mae Iesu'n fyw. Agor carcharau? Mae Iesu'n fyw. Adeiladu'r eglwys? Mae Iesu'n fyw. Sefyll yn erbyn erledigaeth? Mae Iesu'n fyw. Trawsnewid bywydau pobl? Mae Iesu'n fyw. Ennill pobl i Grist? Mae Iesu'n fyw. Bedyddio pobl yn eu cannoedd? Mae Iesu'n fyw.

Un o'r pethau a ddywedodd Josua wrth blant Israel ar ôl iddynt feddiannu gwlad yr addewid oedd: 'Ni fethodd un o'r holl bethau da a addawodd yr Arglwydd i dŷ Israel; daeth y cwbl i ben'. Cyn iddo farw, casglodd Josua blant Israel at ei gilydd i ddathlu'r ffaith fod Duw wedi cadw ei air iddynt ac er mwyn iddyn nhw ymrwymo

o'r newydd iddo fe. Yr hyn sydd o bwys yw gweld lle y dewisodd Josua i gynnal eu cyfarfod cenedlaethol. Ar y pryd, roedd tabernacl yr Arglwydd yn Seilo yng nghanol y wlad. Yn y fan honno yr oedd y bobl yn arfer dod ynghyd, mewn lle canolog i offrymu eu haberthau ac i addoli. Ond y tro hwn dewisodd Josua Sichem, ddeg milltir i'r gogledd. Doedd dim tabernacl na theml yno, nac allor na thir sanctaidd. Ond tua phum can mlynedd ynghynt, yn y fan a'r lle fe glywodd Abraham Dduw yn sibwrdd yn ei glust, 'I'th ddisgynyddion di y rhoddaf y wlad hon'. Nawr, gyda phlant Israel wedi'u casglu ynghyd, mae Josua yn dangos y gwirionedd hwn i bawb: 'daeth y cwbl i ben'.

Yn atgyfodiad Iesu 'daeth y cwbl i ben' unwaith eto. Mae Ioan yn disgrifio'r ffordd yr oedd ef a Pedr wedi rhedeg at y bedd ar ôl clywed gan y menywod fod corff Iesu wedi diflannu. Ar ôl disgrifio hyn a ddigwyddodd, mae Ioan yn ychwanegu'r geiriau, 'Nid oeddent eto wedi deall yr hyn a ddywed yr Ysgrhythur, fod yn rhaid iddo atgyfodi oddi wrth y meirw'. Rhaid iddo atgyfodi? Mi fyddai gwaith ein hachubiaeth ar ei hanner heb ei atgyfodiad. Ni fyddai neb yn gwybod yn bendant a oedd Iesu yn Feseia ai peidio, a oedd e wedi dweud y gwir, a oedd ei aberth yn dderbyniol gan y Tad, a oedd y cwbl oll wedi'i dalu drosom ni.

Roedd yn rhaid iddo atgyfodi, ac roedd yr Ysgrhythurau eu hunain wedi tystio i'r digwyddiad. Mae Pedr yn tynnu sylw ei gynulleidfa at eiriau'r Salmydd, 'Ni adawyd ef yn Nhrifgan y Meirw, ac ni welodd ei gnawd lygredigaeth'. Mae hyder gennyf heddiw oherwydd 'daeth y cwbl i ben'.

Hawlia dy dir. Meddianna dy etifeddiaeth.

I'w drafod

- Beth sydd ar ôl i chi ei etifeddu?
- Beth yw bendithion yr atgyfodiad?
- Pam ydym ni'n cael cymaint o anhawster i fyw yng ngwirioneddau'r atgyfodiad? Ai fel yna y mae hi i bawb?

Stuart Bell

(Anerchiad a draddodwyd ar noson gyntaf Gŵyl Llanw yn Aberystwyth, 18 Ebrill 2022)

'2022 – blwyddyn bwysig i ddysgwyr Cymru'

Mae 2022 yn flwyddyn bwysig yn hanes addysg yng Nghymru am y rhesymau canlynol:

- a) Ym mis Medi eleni bydd **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** yn cael ei gweithredu yn ein hysgolion cynradd gyda'r opsiwn i ysgolion uwchradd ddechrau ym mis Medi 2023. Fel rhan o'r newidiadau hyn, bydd y pwnc Addysg Grefyddol yn newid ei enw o fis Medi ymlaen i **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** (CGM), a disgwylir iddo bellach gynnwys safbwyntiau athronyddol, digrefydd yn ei gwricwlwm. I gefnogi athrawon yn eu gwaith, disgwylir i bob awdurdod lleol ledled Cymru gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn paratoi Maes Llafur Cytûn i athrawon 'ei ystyried' wrth gynllunio eu cwricwlwm CGM. Mae gwaith sylweddol felly yn digwydd yn dawel yn y cefndir ac fe hoffwn ddiolch i bob cynrychiolydd o'r enwad sydd yn aelod o unrhyw Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) am eu cyfraniad pwysig, pellgyrhaeddol;
- b) Mae'r cwricwlwm newydd yn gofyn i ysgolion sicrhau fod dysgwyr yn datblygu ymdeimlad dilys o **gynefin**, gan ddatblygu gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a hanes, a'u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut y mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi'u llywio ganddyn nhw. Mae eglwysi a chapeli a chymunedau ffydd, wrth gwrs, yn rhan hanfodol o'r cynefin hwn, a dyma agor cyfleoedd i eglwysi lleol ddyfnhau eu cysylltiadau â'u hysgolion lleol a chyfrannu hefyd at ddylunio cwricwlwm yn lleol. Rwy'n annog eglwysi lleol i wneud y gorau o'r cyfleoedd newydd hyn;

- c) Mae **Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020**, sy'n atal cosbi plant yn gorfforol, wedi dod i rym ym mis Ebrill eleni. Gweler tudalen flaen [Cenn@d_rhif 57](#), am sylwadau gwerthfawr Julie Edwards ar y mater hwn a'r ddolen [Rhowch Amser iddo](#);
- ch) Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 21ain o Fawrth, 2021, y byddai'n sefydlu ei fersiwn ei hun o raglen cyfnewid Erasmus er mwyn llenwi'r bylchau yng nghynllun Turing a sefydlwyd gan lywodraeth Boris Johnson yn San Steffan. Fe gofiwch i Johnson dynnu allan o raglen Erasmus yr Undeb Europeaidd yn dilyn Brexit, Rhagfyr 2020. Bwriad Llywodraeth Cymru yw buddsoddi £65m (2022-26) yn y rhaglen newydd a enwir '[Taith](#)' ac mae'r cynllun yn weithredol ers 4 Mawrth eleni. Disgwylir i 15,000 o fyfyrwyr o Gymru fanteisio ar y rhaglen gyfnewid ryngwladol hon ac y bydd 10,000 o fyfyrwyr tramor yn dod i Gymru. Y gobaith yw y bydd y rhaglen bwysig hon yn cyfrannu at wella safonau ac ehangu gorwelion myfyrwyr Cymru;
- d) Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru cynigir **prydau ysgol am ddim** i holl blant ysgolion cynradd Cymru erbyn Medi 2024. O fis Medi bydd rhai o blant ieuengaf yr ysgolion cynradd yn dechrau cael prydau ysgol am ddim wrth i'r polisi gael ei gyflwyno'n raddol.

Vaughan Salisbury
Swyddog Addysg EBC

Gofalaeth Bethel, Llanddewi Efelffre, Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf a Triniti, Llanboidy

Mae'r eglwysi Annibynnol hyn yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth lawn amser.

Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw eglwys neu grŵp o eglwysi Annibynnol, Bedyddiedig neu Bresbyteriaidd sydd â diddordeb i ymuno â'r ofalaeth.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â

Meryl James

Ysgrifennydd yr Ofalaeth

Ffôn: 01994 240350

E-bost: meryljames534@btinternet.com

Erbyn diwedd mis Mehefin.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 1 Mai, am 7.30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Y diweddar Barch. Elfed ap Nefydd Roberts sy'n cael ein sylw – gŵr a gyfrannodd lawer fel addysgwr, pregethwr, gweinidog, awdur a darlledwr



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 1 Mai, am 7:30yb a 4:30yp

Mererid Hopwood yn trafod emynwyr a cherddorion o amrywiol wledydd sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

Sul, 1 Mai, am 12:00yp

Gwasanaeth gorseddu Andy John yn Archesgob yr Eglwys yng Nghymru

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](#) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir [Cenn@d](#) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

CYNGOR YR UNDEB – *parhad*

bodlediad ar chwe phlatform. Soniodd Rhodri Darcy bod yr Undeb drwy MSP4 yn gweithio ar brosiect podlediadau a fydd yn digwydd cyn bo hir a fydd ar gael i bawb, sef cyfres o gyfweiliadau hamddenol yn trafod gydag unigolion ar bob math o bynciau sy'n berthnasol i Gristnogion.

Nododd y Parchg Carwyn Siddall fod pobl ifanc yn gwrandao ar bodlediadau wrth wneud pethau eraill e.e. rhedeg neu aros am fws; mae podlediadau'n boblogaidd gyda'r to iau a dylid edrych ar ddefnyddio'r cyfrwng er mwyn estyn allan. Nodwyd y byddai hyfforddiant gyda sut i greu podlediadau yn fuddiol i weinidogion. A fyddai podlediadau misol gan yr ieuenctid yn syniad i'w ddatblygu gyda phosibilrwydd i bob cyfundeb wneud podlediad am eu hardal?

Bugeilio Cefn Gwlad

Trafodwyd pwysigrwydd datblygiad Bugeilio Cefn Gwlad, gan drafod yr unigrwydd cymdeithasol a grisialwyd yn ystod adeg y cyfnod clo. Mae sylw wedi cael ei roi drwy elusennau gwahanol ar draws y cyfryngau yn codi ymwybyddiaeth am unigrwydd. Hefyd cyfeiriwyd at y bartneriaeth gyda Thir Dewi a'r Sioe Amaethyddol Frenhinol. Bu rhai gweinidogion yn cysgodu caplan y Sioe – ond oherwydd effeithiau pandemig Covid ni chynhaliwyd sioe dros y ddwy flynedd diweddf. Mae'r maes hwn yn un y dylid adeiladu arno. Mae tlodi cefn gwlad yn rhywbeth cuddiedig, ond mae tlodi trefol fel petai'n fwy gweledol ac yn sicr mae hyn yn rhywbeth y dylid ei gyflysu ac adeiladu arno ynghlwm â Bugeilio Cefn Gwlad.

Gŵyl Ddiolchgarwch

Yn dilyn cyfnod o arwahanrwydd yn sgil y cyfnodau clo, tybed a yw'n amserol edrych ar bosibilrwydd cynnal gŵyl grefyddol o ddiolchgarwch i gael pawb at ei gilydd yn enw Crist, efallai rhywbeth yn debyg i Diwrnod i'r Brenin. Nodwyd y bydd gŵyl y Sul Sbsial i deuluoedd yn digwydd yn Yr Egin, Caerfyrddin yn dilyn cyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn y dref honno eleni a bydd croeso i bobl o bob cwr o Gymru i aros ar ddiwedd y cyfarfodydd i fod yn rhan o'r digwyddiad hwnnw.

Parthed y sefyllfa yn Wcráin, holwyd oes yna le i'n hieuenctid fod yn ymwneud â chroesawu ffoaduriaid i Gymru, mewn dull digidol, o bosibl? Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd y cadeirydd am gyfraniadau pawb.

ADRAN EGLWYSI A'U GWEINIDOGAETH

Cafwyd cyfarfod arbennig iawn o'r adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth dan gadeiryddiaeth y Parchedig Owain Llŷr Evans. Yn dilyn gair o groeso a gweddi gan y cadeirydd, aethpwyd ymlaen i roi sylw i sawl agwedd o waith yr adran. Trafodwyd pum maes yn benodol.

1. Patrymau / modelau newydd o weinidogaeth

Agorodd y Cadeirydd drwy nodi mai'r cwestiwn allweddol yw sut allwn ni ddatblygu patrymau a modelau newydd. Wrth gwrs, mae'r pwnc hwn yn trafod y weinidogaeth yn ei chyfanrwydd, ac nid y Gweinidogion a'r weinidogaeth draddodiadol. Cafwyd ambell enghraifft o fodolau o weinidogaethau er enghraifft model o weinidogaeth tîm a gweinidogaeth arloesol dan arweiniad y Parchg Owain Davies yng Ngofalaeth Bro Nant Conwy, a gweinidogaeth ymhlith yr aelodau wrth eu hyfforddi i ymgyrdd at wahanol agweddau o'r gwaith yng Ngwaelod y Garth. Wrth gwrs, mae sefyllfa pob eglwys a chynulleidfau'n unigryw, ond fod rhannu enghreifftiau â'n gilydd yn fodd i ehangu ein gweledigaeth a'n syniadau. Cytunwyd mai cychwyn y sgwrs oedd hyn, a bod rhaid edrych yn fanylach ar hyn, gan ddod a syniadau a phatrymau amrywiol i'r drafodaeth, ond â sensitifrwydd a chydabyddiaeth o sefyllfa unigryw pob eglwys.

2. Gofal dros weinidogion

Nodwyd fod yr Undeb eisoes yn prynu mewn i ddarpariaeth gwnsela i weinidogion, ac mae cyfle i unrhyw weinidog gysylltu â'r Undeb i fanteisio ar y gwasanaeth hwn. Wrth drafod yr angen am ofal bugeiliol, codwyd y cwestiwn ynglŷn â sut i estyn gofal bugeiliol a chymorth i'r eglwysi hefyd, yn arbennig mewn cyfnodau heriol. Atgoffwyd ni fod yr Undeb wrth law i estyn cymorth ac arweiniad, a bod angen pwysleisio rôl y pwyllgor bugeiliol ym mhob cyfundeb.

3. Hyfforddiant mewn swydd

Cafwyd trafodaeth am yr angen i gynnal sesiynnau hyfforddiant mewn swydd i weinidogion. Yn ystod y cyfnod clo, roedd sesiynnau wythnosol rhithiol i weinidogion, a chymaint o fudd a gafwyd ohonynt nes eu bod yn parhau yn fisol. Hefyd, mae cyfarfod wedi ei drefnu i weinidogion â gofal eglwys i gydgyfarfod ar Zoom.

4. Llunio gofalaethau

Wrth ystyried gweinidogaeth a gofalaethau, cytunwyd fod y patrwm o ofalaethau bro yn allweddol gan ei fod yn galluogi ardaloedd sydd wedi mynd yn

wan o ran enwadau gwahanol i gydweithio a derbyn gweinidogaeth. Cafwyd sylw hefyd mor allweddol yw bod gweinidogion a gofalaethau yn dod i ddeall trefniadau ei gilydd pan ffurfir gofalaethau bro, ac y gall pwysau gweinyddol ar weinidogion sydd â mwy nag un enwad yn yr ofalaeth fod yn fawr.

5. Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Nodwyd mai o dan adain yr adran hon y daw'r rhaglen Arloesi a Buddsoddi, a nodwyd fod ceisiadau eisoes wedi dod i law a'u derbyn, gyda sawl un yn rhannu gweledigaeth gyffrous iawn. Cafwyd rhai enghreifftiau o geisiadau llwyddiannus, ac edrychwn ymlaen at ddilyn eu hanes. Cafwyd ambell sylw a phryder nad oedd eglwysi llai, ac sy'n ymddangos yn fwy bregus, wedi manteisio hyd yma. I nifer ohonynt, anorfod yw canolbwyntio ar oroesi yn hytrach nag arloesi. Yn wyneb hyn, gofynnwyd tybed a fyddai o fudd i gyfundebau allu cydweithio â chylch o eglwysi i'w cynorthwyo i baratoi cais.

Wrth ystyried unrhyw faterion eraill, ychwanegwyd y dylid rhoi lle i adrodd yn ôl i waith y Panel Diogelwch Cydenwadol yn yr adran hon, a rhannwyd ychydig am waith y panel hwnnw â ni. Hefyd, cynigwyd ein bod yn rhoi sylw i'r weinidogaeth ddigidol, a hefyd i eglwysi ôl-Covid, a chytunodd bawb. Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i waith yr adran.

GWAHODDIAD

Braint yw estyn gwahoddiad i chi i oedfa ddatlu 30 mlwyddiant y Parchg Carys Ann yn gwasanaethu yr Arglwydd Iesu Grist yn eglwysi Capel y Wig, Llangrannog; Pisgah, Talgarreg a Phantycrugiau, Plwmp. Bydd yr oedfa yng nghapel Pisgah ar 8 Mai am 1.30pm. Byddwn hefyd yn dathlu 200 mlwyddiant yr achos yng nghapel Pisgah. Ar ran yr eglwysi, Llinos Whitfield: (01545) 590358.

Penderfyniadau i Undeb 150

Mae cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd flynyddol. Dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dydd Gwener, 20 Mai fan bellaf.

Barn Annibynnol

I ddifyrru'r amser

Ydych chi wedi ymddeol eto? Mi rydw i, ers deuddeg mlynedd bellach. Ond pan oedd hynny ar fin digwydd, y cwestiwn a ofynnwyd i mi yn ddiethriad oedd, 'A beth ti'n mynd i neud gyda dy amser nawr 'te?'



Cwestiwn da a digon rhesymol. Ond un na fedrwn ei ateb cyn i mi ymddeol gan nad oeddwn yn gwybod yr ateb. Ond un peth â'm trawodd, a pheri braw i mi pan ddaeth y cyfnod disgwylidig hynny oedd bod fy nyddiadur – a redai o fis Medi i fis Awst gan mai athrawes oeddwn – nawr yn wag! Mi aeth o fod yn dudalennau trymlwythog i fod yn *hollol wag!* Doedd hynny erioed wedi digwydd i mi o'r blaen ac roedd yn deimlad brawychus. Ond ers hynny, mi ddigwyddodd unwaith eto a hynny yn ystod cyfnod y clo, am resymau amlwg.

Llanw'r dyddiadur

Bu'n rhaid mynd ati i geisio darganfod rhywbeth i lenwi'r tudalennau gweigion gwyn. Yn ffodus, tasg a lwyddais i'w chyflawni yn weddol hawdd gan fod amser gennyf nawr i wneud y pethau roeddwn wedi dymuno gwneud yn y gorffennol, ond wedi methu, gan nad oedd digon o amser gyda fi. Ac mi lenwyd y dyddiadur.

Roeddwn yn ddigon lwcus 'mod i mewn iechyd da ac felly, er mod i wedi gohirio gwneud cymaint, cefais y cyfle i fynd ati i'w cyflawni ond nid pawb sydd mor ffodus. Y dydd o'r blaen mi welais y llun bach yma ac fe'm trawodd, gan wneud i mi feddwl. Fe welch arwyddocâd y llun heb i mi orfod egluro. Mae amser yn beth gwerthfawr iawn a chyn pen dim, fe fyddwn wedi rhedeg allan o amser, naill ai i gyflawni beth hoffem wneud gyda'n hamser ar ôl ymddeol, neu yn wir ar unrhyw adeg yn ein bywydau. Rhaid gochel *na* fyddwn yn gadael i amser lithro drwy ein dwylo; colli cyfleoedd gwerthfawr na ddaw fyth yn ôl. Dylem fanteisio ar y 'nawr' yn hytrach na meddwl, mi wnâi ei adael tan yfory. Nid yw yfory byth yn dod.

Amser i bob peth

Yr wyf hefyd yn grediniwr mawr bod pethau weithiau yn digwydd ar yr amser cywir. Os trown at Lyfr y Pregethwr, cawn ein sicrhau bod yna 'amser i bob peth dan y nefoedd'. Mae yna gysur yn hynny o beth, oherwydd o

gredu hynny, mae pethau'n digwydd ar yr adeg iawn ac efallai bod hynny ychydig allan o'n rheolaeth ni.

O'm mhrofiad personol i, er i mi ddweud ar y dechrau 'mod i wedi ymddeol ers deuddeg mlynedd, nid yw hynny'n gwbl wir. Tan y llynedd, roeddwn wedi ymddeol heb yr un bwriad o ymgeisio am swydd. Roeddwn yn gwbl hapus fy mynd na fyddwn yn mentro mewn i fyd gwaith byth eto! Tan i mi weld hysbysyb swydd ar gyfer swyddog cymunedol fel rhan o brosiect arloesol gan gapel Bethlehem Newydd Sanctlêr, sef Tŷ Croeso. A dyna ni. Teimlais fod yr amser yn iawn i mi wneud cais am y swydd ac mi fûm digon ffodus i fod yn llwyddiannus. Enghraifft berffaith o bethau'n digwydd ar yr amser cywir, ac o'm rhan i, gobeithio mai'r amser cywir i mi wneud cyfraniad positif a gwerthfawr yng ngweinidogaeth yr eglwys a'i chenhadaeth.

Y tywod yn treiglo

Cymerwch gipolwg ar y llun bach yna eto. Mi welch fod y tywod yn awrwyd yr oedolyn wedi treiglo trwodd ond mae yna beth ar ôl. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r amser hynny. Gwneud ein rhan gorau po gallwn. Un peth sy'n sicr, ni fedrwn gael ail gyfle i droi'r cloc yn ôl. Rhaid gafael yn y cyfle a gweithredu heb oedi.

Rhaid cofio, bod yna amser i bob peth dan y nefoedd, ond rhaid hefyd bod yn gwbl ymwybodol bod yna 'dywysydd' sydd yn trefnu'r cyfan ac wrth ymddiried ynddo Ef, cawn fedir'r cyrhaeaf o'n llafur a'n hamser.



Yn dy law y mae f'amserau,
Ti sy'n trefnu 'nyddiau gyd,
Ti yw lluniwr y cyfnodau,
Oesoedd a blynyddoedd byd;
Gad im mwyach
Dreulio 'nyddiau yn dy law.

Nantlais

Annalyn Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

PARCHG MEIRION SEWELL 1937-2022

Ganwyd Thomas Meirion Sewell ym 1937, trydydd mab i Maggie Jane a Tom Sewell, Railway Terrace, Y Tymbl, ac yn frawd bach i Edryd a Ian. Roedd 38 Railway Terrace yn gartref cariadus, croesawgar a hael, ac yno, trwy esiampl ei rieni trwythwyd Meirion yn yr egwyyddorion a'r gwerthoedd a drodd yn sail gadarn iddo drwy gydol ei fywyd. Eglwys Bethesda oedd canolbwynt bywyd ysbrydol a chymdeithasol y teulu; roedd Tom yn ddiakon, Maggie Jane yn weithgar yng nghymdeithas y chwiorydd a'r plant a'u rhieni'n mynychu gwahanol gyfarfodydd yn yr wythnos ac ar y Sul. Y Parchg E. Eurfin Morgan oedd gweinidog dylanwadol Bethesda yn y cyfnod hwn.

Chwarae rygbi dros ei wlad

Wrth gwrs, nid y capel oedd unig ddiddordeb y Meirion ifanc. Roedd yn chwaraewr rygbi medrus. Fe'i ddeuwyswyd i chwarae i dîm cenedlaethol Cymru dan 16 oed. Cafodd un cap cyn rhoi'r gorau i rygbi yn dilyn damwain i'w ben ar y cae chwarae.

Saer maen yn teimlo'r alwad

Ar ôl gadael yr ysgol aeth yn brentis saer maen. Cyflawnodd ei brentisiaeth a dysgodd sgiliau ymarferol ac agwedd meddwl fyddai'n dod yn werthfawr iddo yn y dyfodol – ond nid saer maen oedd Meirion i fod! Teimlodd Meirion yr awydd i fynd i'r weinidogaeth Gristnogol. Yn aml fyddai Merion yn dweud mai esiampl ei rieni, pregethu eneiniedig Y Parch Eurfyn Morgan a chymdeithas gynnes a chefnogol Bethesda fu'n gyfrwng i'w alw i fod yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist.

Priodi ac ordeinio

Rhywbryd yn y cyfnod hwn fe gwrddodd Meirion ag Ann, cariad ei fywyd, a dechrau partneriaeth hyfryd wnaeth barhau'n gyd-gefnogol drwy'r blynyddoedd. Gyda'i gilydd roedden nhw'n mwynhau dyddiau da, a gyda'i gilydd bydden nhw'n wynebu cyfnodau anodd a thrist gyda dygnwch a dewrder. Wedi pedair blynedd o addysg ddiwinyddol a hyfforddiant yng Ngholeg Trefeca a Choleg Coffa'r Annibynnwyr, Abertawe fe'i ordeiniwyd yn weinidog i Iesu Grist ym Myddfai a Bwlch-y-rhiw, Sir Gaerfyrddin. Roedd 1963 yn flwyddyn bwysig ym mywyd Meirion ac Ann – priodi ym Mehefin ac yna'r ordeinio a symud i'r mans ym mhentre Myddfai yng Ngorffennaf.

parhad ar y dudalen gefn

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol
gan Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Codi calon dros Wcráin



Fel rhan o'r ymgyrch i weddio dros Wcráin ar ddydd Sul 3 Ebrill, trefnodd Cymorth Cristnogol wynos tu allan i'w Llysgenhadaeth yn Llundain. Ymgasglodd nifer o arweinwyr eglwysig ynghyd o dan arweiniad yr Archesgob John Sentamu, cadeirydd Cymorth Cristnogol. Braint arbennig oedd cael presenoldeb y llysgennad yn ein plith.

Yn gwmni iddo yr oedd nifer o Wcraniaid ac mae'n dda nodi bod offeiriaid o'u plith wedi offrymu gweddiâu yn eu mamiaith. Gyda dwyster anghyffredin y troesom i gyfeiriad y dwyrain a chodi'r calonau glas a melyn

yn arwydd o'n safiad gyda thrigolion y wlad yn eu henbydrwydd a datgan o'r newydd ein hymroddiad i ffordd tangnefedd.

Moment egniol oedd honno pan chwalwyd y tawelwch gan seiniau eu hanthem genedlaethol sy'n datgan yn glir nad yw 'Wcráin wedi ei difa eto'.

Symudodd y cwmni'n araf i gyfeiriad cerflun o Sant Volodymyr a godwyd nepell o'r llysgenhadaeth yn ardal Holland Park yn Llundain yn 1988 i ddathlu milflwyddiant 'Cristioneiddio Kyiv Rus' ac yno mewn munudau o ddistawrwydd llethol tystiwyd i Iesu, ein heddwch, grym ac egni y tangnefeddwyr.

Cafodd Rob Nicholls, Mandy a minnau'r profiad yn un gwerthfawr a bendithiol.



PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

Rheswm i ddathlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.' (Salm 95:1)

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, pa resymau sydd gennym i ddathlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn 15 Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynnyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

PARCHG MEIRION SEWELL 1937-2022 - parhad

Taith ei weinidogaeth

Am 59 o flynyddoedd bu Meirion yn weinidog gweithgar mewn meysydd amrywiol iawn. Dyma ffeithiau ei yrfa: Myddfai a Bwlch-y-rhiw 1963-69; Rhyd-y-bont 69-72; Capel Iwan 72-79; Gibeon, Taibach a'r Tabernacl Newydd Port Talbot 79-83; Gweinidogaeth Bro Brynman Uchaf 83-95; Y Tabernacl Porthcawl 1995-2002; Rama a Pen-y-graig 2003 hyd nes ei farw.

Ym mhob un ardal, fe weithiodd Meirion yn ei ffordd dawel, effeithiol. Roedd ei ddiwylledd a'i hynawsedd yn amlwg ymhob agwedd o'i weinidogaeth boed yn y pulpud, wrth fwrdd y cymun neu allan yn y gymuned. Nid oedd dim sych-dduwiol yn perthyn iddo; roedd hwyl i'w gael yn ei gwmni. Sefydldd gwmniâu drama a phartïon noson lawen mewn sawl man. Trwy weinidogaeth Meirion cawsom gipolwg ar y bywyd Cristnogol yr oeddem am ei fyw ac ar Iesu oedd yn rhaid ei ddilyn. Mae llawer yn ynstio i ddyllanwad da Meirion ar ei bywydau, dylanwad sydd wedi parhau dros y blynyddoedd.



Dangos Iesu

Trwy holl brofiadau bywyd bu'r bartneriaeth rhwng Ann a Meirion yn gadarn. Yn 2015 bu farw eu hunig blentyn,

Helen, yn 47 mlwydd oed gan adael Nigel, ei gŵr a thri o blant. Bu Meirion ac Ann yn gysur ac yn gefn i'r teulu; fel y bu Nigel a'r teulu yn gymorth ac yn gysur i Meirion ac Ann ar gyfnodau anodd. Roedd yr wyrion Aled, Geraint ac Arwel a'r or-wyres Alice yn golygu'r byd i Meirion ac Ann.

Bu farw Meirion yn dawel yn ysbyty Glangwili fore Iau 20 Ionawr 2022. Daeth cynulleidfa fawr i amlogfa Llanelli ar ddydd Gwener, 11 Chwefror i ddiolch am fywyd a gwasanaeth Meirion, gweinidog ffyddlon i Iesu Grist. Ym mhob peth dangosodd Iesu.

Ynom mae ei gymwynas rhoi a wnaeth, rhoi'i hun yn was, rhoi'r darnau i greu'r Deyrnas.

(Geraint Roberts, Pen-y-graig)